

Darllen yn y Blynyddoedd Cynnar: cefnogi cylchoedd o ddarllenwyr o un genhedlaeth i'r llall

Ymchwil gyda theuluoedd o gefndiroedd incwm isel yn y DU

Cyflwyniad

Mae ymchwil yn dangos bod darllen yn y blynyddoedd cynnar yn dod ag amrywiaeth eang o fanteision uniongyrchol gydol oes a all drawsnewid cyfleoedd bywyd plant. Mae rhannu straeon gyda babanod a phlant bach yn creu eiliadau arbennig o agosatrwydd, sylw a rennir a mwynhad. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi bondio, ymlyniad cadarnhaol a lles mewn teuluoedd. Mae plant sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â llyfrau a straeon yn profi buddion datblygiadol pwysig fel gwell sgiliau iaith, twf cymdeithasol-emosiynol, a chreadigrwydd.

Darllenwch ragor am fuddion darllen.

Mae ein hymchwil ddiweddar yn amlygu graddau'r dylanwad y mae mwynhad rhieni o ddarllen yn ei gael ar feithrin arferion darllen cenedlaethau gwahanol. Mae rhieni a gofalwyr sy'n hoffi darllen eu hunain, er eu mwynhad eu hunain, yn cynnig mwy o gyfleoedd i'w plant ar eu teithiau darllen. Mae'r rhieni/gofalwyr hyn yn meithrin cydgyfnewid emosiynau

cadarnhaol wrth rannu llyfrau a straeon, sy'n cymhell eu plant i ddarllen, ac yn y tymor hwy, sy'n creu cylch o ddarllenwyr brwdfrydig o un genhedlaeth i'r llall.

Yn BookTrust rydym yn cydnabod bod mwynhad plant a rhieni o ddarllen yn ffactorau allweddol a all gyfrannu at ddatblygiad plant fel darllenwyr. A gwyddom fod mwynhad o ddarllen mewn plentynod ar drai ar y cyfan¹. Felly, mae meithrin mwynhad o eiliadau darllen ar y cyd i blant a'r rhai sy'n gallu rhannu llyfrau a straeon gyda nhw wrth wraidd yr hyn a wnawn. Mae ein rhaglenni wedi'u cynllunio i greu profiadau darllen cadarnhaol, rhyngweithiol a chyfoethog i blant ac oedolion. Gan weithio'n agos gyda'n partneriaid profiadol, rydym yn darparu cymorth ychwanegol wedi'i deilwra i deuluoedd sy'n wynebu mwy o rwystrau i fwynhau darllen ar y cyd. Ein gweledigaeth yw i bob teulu rannu llyfrau a straeon ar draws y cenedlaethau, gan feithrin cylch darllen o un genhedlaeth i'r llall.



65%

o rieni/ gofalwyr eu hunain yn hoffi darllen

35%

o rieni/ gofalwyr nad ydynt yn hoffi darllen



76%

o blant (0-7 oed) y mae eu rhieni/gofalwyr yn hoffi darllen eu hunain yn mwynhau darllen, o gymharu â

54%

o blant nad yw eu rhieni/ gofalwyr yn hoffi darllenlike reading



68%

o blant (4-6 oed) y mae eu rhieni/gofalwyr yn hoffi darllen eu hunain yn cael rhywun yn darllen iddynt bob dydd, o gymharu â

52%

o blant nad yw eu rhieni/ gofalwyr yn hoffi darllen



90%

o blant (4-7 oed) y mae eu rhieni/gofalwyr yn hoffi darllen eu hunain yn cael eu hannog i ddarllen yn rheolaidd, o gymharu â

70%

o blant nad yw eu rhieni/ gofalwyr yn hoffi darllen



55%

o blant (0-7 oed) y mae eu rhieni/ gofalwyr yn hoffi darllen eu hunain wedi'u cofrestru gyda llyfrgell gyhoeddus o gymharu â

43%

o blant nad yw eu rhieni/gofalwyr yn hoffi darllen

Methodoleg ymchwil

Mae'r ffigurau yn y ddogfen hon yn tynnu ar Arolwg BookTrust o Deuluoedd 2022. Cynhaliwyd yr astudiaeth ar-lein hon o 2,148 o rieni a gofalmwyr plant 0–7 oed sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022. Mae'r papur briffio hwn hefyd yn cynnwys mewnwelediadau o ymchwil ansoddol diweddar BookTrust gyda theuluoedd ac ymarferwyr, sef ein Harolwg cyntaf o Deuluoedd a gynhaliwyd yn 2021, a llenyddiaeth ymchwil academaidd ehangach.

Noder: rydym yn defnyddio'r term 'teuluoedd incwm isel' i ddynodi'r rhai sy'n byw mewn tlodi cymharol fel y'i diffinnir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Beth mae'r ymchwil hon yn ei ddweud wrthym?

Mae ein hymchwil yn amlygu'r graddau y mae mwynhad rhieni/gofalmwyr eu hunain o ddarllen yn dylanwadu ar frwdfrydedd eu plant dros ddarllen a'r arferion darllen y mae eu plant yn eu datblygu.



Ffigur 1. Cylchoedd darllen o un genhedlaeth i'r llall

Mae rhieni/gofalmwyr sy'n hoffi darllen eu hunain, er eu mwynhad eu hunain, yn fwy tebygol o sefydlu darllen ar y cyd yn gynnar fel rhan annatod o fywyd teuluol. Mae 59% o rieni/gofalmwyr yn y grŵp hwn o'r farn bod darllen yn rhan arwyddocaol o'u bywyd teuluol (o gymharu â 38% o'r rhai nad ydynt yn hoffi darllen).

Mae corff eang o dystiolaeth yn dangos bod ansawdd emosiynol profiadau darllen ar y cyd, yn fwy na sgiliau darllen rhieni, yn tanio diddordeb plant mewn darllen². Mewn eiliadau darllen ar y cyd, mae pleser a rhyngweithiadau cadarnhaol yn llifo'n ddwyochrog rhwng yr oedolyn a'r plentyn. Mae ein canfyddiadau'n dangos bod rhieni/gofalmwyr sy'n hoffi darllen eu hunain yn

mynegi mwy o ddiddordeb mewn rhannu llyfrau a straeon gyda'u plant na'r rhai nad ydynt yn hoffi darllen (50% o gymharu â 29%) ac yn gweld y profiad yn fwy gwerth chweil (61% o gymharu â 39%).

Mae'r teimladau cadarnhaol hyn yn galluogi'r rhieni/gofalmwyr hyn i ddarparu cynhesrwydd emosiynol, cyffro ac ymatebolrwydd yn ystod y cyfnodau a dreulir yn darllen gyda'u plant, sy'n meithrin cymhelliant ac ymgysylltiad plant. Mae 81% o rieni/gofalmwyr sy'n hoffi darllen eu hunain yn dylanwadu ar fwynhad eu plant o ddarllen, o gymharu â 64% o'r rhai nad ydynt yn hoffi darllen.

Mae plant y mae eu rhieni/gofalmwyr yn mwynhau darllen eu hunain yn fwy tebygol o brofi gwahanol weithgareddau darllen ar y cyd, gan gynnwys rhigymau, adrodd straeon a darllen llyfrau. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael mynediad at lyfrau, megis trwy aelodaeth o lyfrgell, ac o gael eu hannog yn rheolaidd gan eu rhieni/gofalmwyr i ddarllen.³

Mae ein canfyddiadau'n dangos bod plant sydd â rhieni/gofalmwyr sy'n hoffi darllen eu hunain yn fwy tebygol o ddatblygu cariad hirdymor at ddarllen. Ar ddechrau'r ysgol⁴, mae 85% o blant darllenwyr brwdfrydig yn hoffi darllen, o gymharu â 55% o'r rhieni nad yw eu rhieni/gofalmwyr yn mwynhau darllen eu hunain. Ac mae plant 3-7 oed sy'n mwynhau darllen ddwywaith yn fwy tebygol o ddarllen yn annibynnol bob dydd na'r rhai nad ydynt yn ei fwynhau (55% o'i gymharu â 25%). Gwyddom hefyd fod y rhai sy'n darllen fel plant yn fwy tueddol o ddod yn rhieni/gofalmwyr sy'n rhannu llyfrau a straeon gyda'u plant eu hunain⁵, gan barhau â'r cylch hwn ar draws y cenedlaethau.

Ynghylch y papur briffio hwn

Wrth rannu ein canfyddiadau ar rôl mwynhad rhieni wrth lywio arferion darllen plant, rydym am dynnu sylw at bwysigrwydd cefnogi teuluoedd i fwynhau rhannu llyfrau a straeon gyda'i gilydd, gan greu cylch darllen o un genhedlaeth i'r llall.

Gellir darllen ein papurau briffio ymchwil eraill yn 2023 o'n cyfres Arferion Darllen Plentynod Cynnar yma:

Reading in the Early Years a **The role of multiple 'reading influencers' in supporting children's reading journeys.**

Sut mae BookTrust yn cefnogi cylchoedd darllen o un genhedlaeth i'r llall

Cefnogi Cylchoedd Cadarnhaol: Gwyddom pan fydd rhieni/gofalwyr yn trosglwyddo mwynhad o eiliadau darllen ar y cyd bod hyn hefyd yn gwneud plant yn fwy tebygol o fwynhau profiadau darllen ar y cyd. Gall rhieni/gofalwyr gael eu cymell i rannu llyfrau a straeon pan fyddant yn gweld mwynhad eu plant⁶. Fodd bynnag, rydym yn deall y gall fod angen cymorth ychwanegol ar rai rhieni/gofalwyr sydd â diffyg hyder mewn darllen a/neu brofiad o ddarllen fel plentyn eu hunain i ddechrau darllen gyda'u plant.

Yn BookTrust rydym yn tanio mwynhad teuluol trwy greu profiadau darllen hwyliog i blant ac oedolion fel ei gilydd, a thrwy feithrin hyder rhieni. Gan weithio'n agos gyda'n partneriaid darparu lleol, rydym yn darparu arweiniad anfeirniadol a modelu rôl, gan helpu i leihau pryder a allai wneud rhannu llyfrau yn straen i rai rhieni/gofalwyr. Mae pob cynnig BookTrust offers, fel **ein pecynnau Dechrau Da newydd i Blant Bach**, yn cynnwys llyfrau deniadol, rhyngweithiol sy'n hawdd eu defnyddio a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â llyfrau. Mae'r rhain yn annog teuluoedd i gymryd rhan mewn darllen mewn ffyrdd sy'n arwain at fwynhad rhieni a phlant ac sy'n meithrin arferion darllen.

Rydyn ni'n llawn cyffro i roi pecynnau Llyfrau Dechrau Da i Blant Bach am ddim!



“Pan oedd fy mhlentyn yn fabi doeddwn i ddim wedi meddwl pa fath o lyfrau i'w cael gan fy mod yn meddwl ei fod yn rhy ifanc i fwynhau llyfrau, ond pan dderbyniais y pecyn Dechrau Da i Fabanod gwelais ef yn ymateb iddynt er ei fod mor fach... Roeddwn yn dioddef o iselder ôl-enedigol ac roedd defnyddio'r llyfr hwn yn weithgaredd bondio da gyda fy mabi ac wedi ein helpu i gysylltu llawer mwy.”

Mam, Gwerthusiad o Dechrau Da i Fabanod, 2021



Ehangu Cylchoedd Cadarnhaol: Mae **ein hymchwil** yn tynnu sylw at gyfleoedd i ehangu cylchoedd darllen o un genhedlaeth i'r nesaf. Darllennir i lawer o blant gan sawl person yn eu bywydau, gan gynnwys neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd, ac athrawon. Po fwyaf o'r bobl ym mywyd plentyn sy'n rhannu llyfrau a straeon gyda nhw ac yn trosglwyddo cariad at ddarllen, y cryfaf y bydd y cylchoedd o un genhedlaeth i'r llall o ran creu darllennwyr y dyfodol.

Mae adnoddau BookTrust wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio a'u mwynhau gan 'ddylanwadwyr darllen' lluosog ym mywyd plentyn. Mae **ein hadnoddau digidol** ar gyfer teuluoedd yn dangos neiniau a theidiau a brodyr a chwiorydd yn mwynhau eiliadau darllen, i godi ymwybyddiaeth o sut y gall 'dylanwadwyr darllen' eraill gefnogi plant ar eu teithiau darllen.

Mynd i'r afael â Chylchau Negyddol:

Mae ein hymchwil yn datgelu rhwystrau penodol i greu cylchoedd darllen cryf o un genhedlaeth i'r llall. Mae'n dangos, er enghraifft, fod rhieni/gofalwyr yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol am rannu llyfrau a straeon gyda'u merched na chydau meibion, a bod bechgyn yn llai tebygol o gael rhywun yn darllen iddynt yn rheolaidd na merched. Mae llawer o rieni/gofalwyr yn adrodd bod eu meibion yn colli diddordeb

mewn darllen yn gyflym neu eu bod yn "rhy actif i eistedd i lawr a gwrando ar stori".

Yng nghynigion a negeseuon BookTrust, rydym yn rhoi sicrwydd i deuluoedd nad oes ffordd gywir neu anghywir o ddarllen, a bod plant yn gallu ymgysylltu'n weithredol â stori boed hynny trwy chwarae, gyda symudiadau, wrth symud, neu yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae **ein cynnig Amser Stori BookTrust mewn llyfrgelloedd** wedi'i gynllunio i herio pryderon rhieni/gofalwyr y dylai plant eistedd yn dawel wrth fwynhau llyfrau mewn llyfrgelloedd.

“Roedd fy mhlentyn yn caru'r pecyn gymaint fel ei bod yn gyffro i gyd am roi cynnig ar bopeth yn y pecyn. Roeddwn i hefyd yn gynhyrfus amdano, ac fe'm ysgogwyd i ddarllen gyda fy mhlentyn. Mae'n hwyl, yn addysgol ac yn hardd.”

Tad, Gwerthusiad o Dechrau Da i Fabanod a Phlant Cyn Oed Ysgol, 2022/23



Mae BookTrust a'n rhwydwaith helaeth o bartneriaid yn gweithio'n galed i annog teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd, a pharhau i wneud hynny o'r eiliadau cynharaf ym mywyd plentyn – fel y gall y genhedlaeth hon o blant fwynhau'r manteision eang a phwysig a ddaw yn sgil darllen.

Rydym wedi ymrwymo i wneud hyn yn iawn i blant a theuluoedd. Ein cenhadaeth yw cynllunio cefnogaeth gryfach fyth, trwy bartneriaethau cryfach fyth ar gyfer mwy o blant nag erioed sydd angen y cymorth hwn fwyaf. Pan fyddwn yn llwyddo yn hyn o beth, rydym yn gwybod y bydd plant yn elwa ar well datblygiad gwybyddol a chymdeithasol, lles, parodrwydd am yr ysgol a chyrhaeddiad. A gwyddom y gall darllen chwarae rhan bwysig yn y tymor hwy wrth helpu i dorri'r cylch tlodi i blant.

Mae'r ymchwil hon yn tynnu sylw at rôl mwynhad nid yn unig ar ran y plant, ond hefyd ar ran y bobl sy'n rhannu llyfrau a straeon gyda nhw, fel ffactor allweddol wrth greu'r genhedlaeth nesaf o ddarllenwyr a storiwyr. Wrth rannu'r ymchwil, rydym yn gobeithio cynyddu ymhellach y gefnogaeth i rieni ac eraill fwynhau eiliadau darllen ar y cyd cynnar gyda'u plant heddiw. ”

Ruthann Hughes, Cyfarwyddwr Ymchwil ac Effaith, BookTrust

Ynghylch BookTrust

Fel yr elusen ddarllen fwyaf i blant yn y DU, rydym am i bob plentyn ddarllen yn rheolaidd, a hynny o'u gwirfodd. Bob blwyddyn, rydym yn helpu miliynau o blant a theuluoedd i ddarllen, yn eu hysbrydoli gyda llyfrau ac adnoddau i'w rhoi ar ben y ffordd o ran eu taith ddarllen. Rydym yn darparu ystod eang o lyfrau, adnoddau a chefnogaeth sydd wedi'u curadu a'u dylunio'n ofalus i helpu teuluoedd i ddechrau rhannu straeon a pharhau i ddarllen drwy gydol plentyndod. Rydym yn cynnig mwy o gymorth wedi'i dargedu i deuluoedd o gefndiroedd incwm isel a bregus oherwydd ein bod yn gwybod mai'r plant hyn fydd yn elwa fwyaf o fuddion darllen.

Mae ein cymorth, sydd wedi'i gynllunio i newid ymddygiad darllen, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn gan gynnwys ymchwil gyda rhieni, neiniau a theidiau, gofawyr eraill ac ymarferwyr. Rydym yn deall strwythurau, amgylchiadau a dewisiadau amrywiol iawn teuluoedd blynyddoedd cynnar yn y DU, ac yn dylunio ar eu cyfer.

Diolch i rwydwaith eithriadol o bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, llyfrgelloedd, a mwy ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, rydym yn gallu cyrraedd teuluoedd lle y maent, yn eu cymunedau lleol.



Cysylltu â ni

queries@booktrust.org.uk
booktrust.org.uk

[f](https://www.facebook.com/Booktrust) [@Booktrust](https://www.instagram.com/Booktrust)

©2023 BookTrust. Rhif elusen: 313343



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**



Ôl-nodiadau

- 1 Nielsen (2023). Understanding the UK Children's Book Consumer 2022.
- 2 Sonnenschein, S. & Munsterman, K. (2002). The influence of home-based reading interactions on 5-year-olds' reading motivations and early literacy development. *Early Childhood Research Quarterly*, 17(3), 318–337; Landry, S. H. et al. (2012). The effects of a responsive parenting intervention on parent- child interactions during shared book reading. *Dev Psychol*, 40(4): 969-986.
- 3 Dangosodd ymchwil flaenorol ar y pwnc hwn hefyd gysylltiad rhwng mwynhad rhieni a nifer y llyfrau plant yn eu cartref (gweler, er enghraifft, Egan, S. M. et al. (2022). From stories at bedtime to a love of reading: Parental practices and beliefs about reading with infants. *Journal of Early Childhood Literacy*, 0(0)), a chysylltiad rhwng arferion darllen rhieni ac arferion darllen plant trwy fodelu rôl (gweler, er enghraifft, Sullivan, A. (2007). Cultural capital, cultural knowledge, and ability. *Sociological Research Online*, 12(6)).
- 4 Y derbyn yng Nghymru a Lloegr, Blwyddyn 1 yng Ngogledd Iwerddon.
- 5 Reed, A. (2013). BookTrust Reading Habits Survey 2013: A national survey of reading habits and attitudes to books amongst adults in England.
- 6 Preece, J. & Levy, R. (2020). Understanding the barriers and motivations to shared reading with young children: The role of enjoyment and feedback. *Journal of Early Childhood Literacy*, 20(4), 631-654.